**Huw Lewis AC / AM**
**Y Gweinidog Addysg a Sgiliau**
**Minister for Education and Skills**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

5 Tachwedd 2014

Annwyl Simon,

**Ymateb i gwestiwn a gafwyd yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Hydref 2014 ynghylch yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch**

Ysgrifennaf mewn ymateb i'ch cwestiwn ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr (HEFCE) mewn perthynas â'i gontract gyda'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch.

O dan delerau Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yn gyfrifol yn statudol am sicrhau bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer asesu ansawdd yr addysg yn y sefydliadau y mae'n eu hariannu neu'n bwriadu eu hariannu. Yng Nghymru, mae gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) gyfrifoldeb statudol cyfatebol. Mater i'r Cynghorau yw pennu sut i arfer eu dyletswydd boed hynny drwy'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd neu drefniant arall. Nid oes gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd gyfrifoldeb statudol am sicrhau ansawdd. Bydd hyn yn parhau os yw Bil Addysg Uwch (Cymru) yn cael ei roi mewn grym ar ôl ei daith drwy gamau Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ar 7 Hydref 2014, cyhoeddodd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr adolygiad o'r trefniadau sicrhau ansawdd yn y DU. Cafodd fy swyddogion eu hysbysu gan CCAUC am y datblygiad hwn ar 25 Medi ac wedyn fe wnaethant roi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi am y cynnig. Mae cyrff cyllido Addysg Uwch Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn bwriadu gwahodd sylwadau ar ddulliau o asesu ansawdd addysg uwch yn y dyfodol. Yn seiliedig ar yr adborth a geir, efallai y byddant yn mynd ati wedyn i wahodd tendrau drwy broses gaffael ar y cyd. Bydd hyn yn sicrhau tryloywder ac yn dangos gwerth am arian.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Gohebiaeth.Huw.Lewis@cymru.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r adolygiad o'r trefniadau sicrhau ansawdd yn cydnabod bod addysg uwch yng Nghymru yn newid yn gyflym. Rhaid i’r trefniadau sicrhau ansawdd yn y dyfodol barhau i gael eu parchu'n rhyngwladol, i ennyn ffydd myfyrwyr ac i gefnogi sector addysg uwch o'r radd flaenaf. Deallaf mai nod Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yw datblygu dulliau arloesol sy'n seiliedig ar risg, yn gymesur, yn fforddiadwy ac yn llai o faich.

Bydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr yn sefydlu Grŵp Llywio i oruchwylio'r broses, gan gynnwys manyleb y tendr. Bydd y Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sector, Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM) a'r cyrff cyllido gan gynnwys CCAUC. Bydd y trefniadau sicrhau ansawdd presennol yn parhau yn 2015-16. Caiff unrhyw drefniadau newydd eu rhoi ar waith o fis Medi 2017.

Bydd Cyngor Cyllido’r Alban, mewn partneriaeth ag Universities Scotland ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yn yr Alban, yn cynnal adolygiad ar wahân o'r dull o asesu ansawdd mewn proses gyfatebol a fydd yn dilyn amserlen debyg. Bydd y cyrff cyllido addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban yn cadw mewn cysylltiad agos â’i gilydd drwy gydol y prosesau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu wrth ein gilydd ac yn datblygu'r trefniadau gorau posibl ar gyfer ein gwledydd. Mae CCAUC wedi sicrhau bod fy swyddogion yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau hyn ac wedi ysgrifennu at brifysgolion yng Nghymru am yr adolygiad a'r broses dendro. Felly, bydd sefydliadau Cymru'n cael cyfle i fynegi eu barn drwy'r broses ymgynghori cyn bod y broses dendro'n dechrau.

Nid oes goblygiadau i Fesur Addysg Uwch (Cymru) yn sgil yr adolygiad hwn gan fod ein cynigion yn datgan bod y cyfrifoldeb statudol am wneud darpariaeth ar gyfer trefniadau asesu ansawdd Addysg Uwch yng Nghymru yn aros gyda CCAUC. O dan y Bil, mater i CCAUC o hyd fydd penderfynu sut i arfer ei rôl statudol a gyda phwy i sefydlu contract, os bydd angen, i gyflawni hynny.

Yn gywir



**Huw Lewis AC / AM**
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau
Minister for Education and Skills